Rheithor Llanallgo

(helpu eraill / ffyddlondeb / dewrder)

Rheithor Llanallgo, ger Moelfre ar Ynys Môn, oedd y Parchedig Stephen Roose Hughes. Mewn storm na welwyd mo'i bath hyrddiwyd y *Royal Charter,* llong oedd yn cario 324 o deithwyr a 103 o griw, ar greigiau Porth Helaeth nid nepell o Foelfre. Roedd y llong ar ei thaith o Borth Philip, Awstralia, ar ei ffordd i Lerpwl. Ond, yn oriau mân bore'r 26 Hydref, torrodd y *Royal Charter* yn ddwy ac o'r 427 ar ei bwrdd dim ond 40 a achubwyd a'r rheiny i gyd yn ddynion.

Un o'r rhai a chwaraeodd ran amlwg yn y dyddiau'n dilyn y drychineb oedd Stephen Roose Hughes. Dyma rannau o ddyddiadur dychmygol y ficer:

Dydd Mercher, 26 Hydref 1859: Diwrnod tymhestlog iawn ar ôl noson fythgofiadwy. Gwynt a glaw na welwyd erioed y fath beth. Ganol bore, newyddion bod llong wedi torri'n ddwy ar draeth Porth Helaeth. Cyrraedd y fan oddeutu hanner dydd. Y fath olygfa! Cyrff ymhob man – dynion, merched a phlant. Ambell un yn fyw ond wedi eu hanafu'n ddirfawr. Bechgyn ifanc Moelfre yno'n helpu. Rhaid oedd cario'r cyrff i eglwys Llanallgo. Yn ôl y bechgyn roedd y cyrff yn drwm gan fod blociau o aur yn sownd am eu canol. Rhoddais chweugain am bob corff oedd yn cyrraedd yr eglwys. Ffrae yn codi rhyngof fi a Mr Smith o Biwmares. Roedd ef am gadw'r aur a'r trysorau. Mynnai mai eiddo'r Goron oedd yr aur. Roeddwn innau'n bendant mai eiddo'r unigolyn a'u teuluoedd oedd yr aur.

Dydd Iau, 27 Hydref 1859: Heb gysgu llawer neithiwr. Cyrhaeddodd Dr Hughes o Borthaethwy ychydig wedi hanner nos – aros efo fo am ychydig oriau. Gwaith digalon iawn heddiw. Cofnodi popeth posibl am bob corff cyn eu claddu. Trist gweld merched a phlant bach ymhlith y meirw. Rhai o'r cyrff yn dal eu gafael yn yr aur oedd am eu canol. Rhai o fechgyn Moelfre yn helpu i gladdu'r cyrff. Mynd am dro ar hyd y glannau.

Dydd Sul, 30 Hydref 1859: Amhosibl oedd cynnal gwasanaeth yn yr eglwys heddiw. Roedd cyrff yn gorwedd ymhob man. Bu'n rhaid cynnal gwasanaeth mewn adeilad arall. Mwy o gyrff yn cyrraedd.

Dydd Llun, 31 Hydref 1859: Teulu yn cyrraedd yma o ardal Manchester. Roedd y gŵr ar y llong. Y teulu'n holi'n fanwl amdano. Minnau wedi cofnodi pob manylyn am bob corff cyn eu claddu. Soniodd y wraig ei fod wedi torri ei fys bach ar y llaw dde a bod ganddo

graith ar ei foch chwith. Dywedais ei fod wedi ei gladdu ar y 29 Hydref. Diwrnod trist iawn. Mynd am dro ar hyd y glannau.

Dydd Iau, 3 Tachwedd 1859: Claddu mwy o gyrff yn y bore. Treulio'r pnawn yn sgwennu llythyrau at deuluoedd y bobl. Mwy a mwy o bobl yn ymweld â mi. Mae hi'n anodd iawn cysuro rhai o'r bobl, yn enwedig y rhai ifanc.

Dydd Llun, 7 Tachwedd 1859: Ddim wedi bwyta llawer ers dyddiau bellach, dim ond yfed te. Mae Mrs Hughes yn pryderu amdanaf. Sgwennu dros 20 o lythyrau eto heddiw. Dyna'r patrwm ers dyddiau bellach – claddu'r cyrff, sgwennu llythyrau a cheisio cysuro teuluoedd sy'n ymweld â'r ardal.

Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 1859: Dal i grwydro'r glannau. Mae Mrs Hughes a'i chwaer yn dod efo mi'n aml. Dim awydd bwyd o gwbl. Yr un ydi'r patrwm – claddu, sgwennu, cysuro ond y dyddiau diwethaf yma, methu cysgu.

Dydd Mercher, 1 Rhagfyr 1859: Gair yn cyrraedd heddiw bod un o ohebwyr papur newydd *The Times* am ddod draw o Lundain i Langaffo – ei enw yw Mr Charles Dickens. Mae'n awyddus i gael sgwrs efo mi ac i gael tipyn mwy o'r hanes. Dal i deimlo'n wan a dim archwaeth at fwyd. Y cryd cymalau yn boenus iawn. Dal i grwydro'r glannau. Ambell gorff yn dal i gael ei olchi i'r lan.

Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 1859: Diwrnod bythgofiadwy! Cyfarfod â Mr Dickens. Dyn caredig, annwyl iawn. Yn awyddus iawn i gael ysgwyd llaw efo mi a chael tipyn o'r hanes. Mae Mr Dickens am gyhoeddi'r hanes.

Yn ôl pob sôn sgrifennodd Stephen Roose Hughes 1,075 o lythyrau at deuluoedd y rhai fu farw yn nhrychineb y *Royal Charter*. Bu farw yn 47 oed o glefyd cryd cymalau.

Adnod: "...fy ngwas da a ffyddlon..." Mathew 25:23

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am ddyfalbarhad pobl i wneud eu gorau dros eu cyd-ddynion. Amen.

Trafod:

- Sut y buasech chi'n mynd ati i ddisgrifio cymeriad Stephen Roose Hughes?
- Pam y daeth Charles Dickens yr holl ffordd i Foelfre i'w gyfarfod?